CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd am 7pm ar 7 Tachwedd 2022 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021..*

Presennol:
Cadeirydd Cyng Nicky Redmond. Cyngr: Jan Culley , Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, Richard Rose, Clive Wychwood

CS
A Edwards

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Dim.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng N Redmond | 7.11.22 | Cinio'r Henoed |
| Cyng A Edwards | | Gwirfoddolwr trefnu |
| Cyng K Symmons | | Presennol o bosibl |
| Cyng G El Tawab | | |
| Cyng C Lewis | | |
| Cyng H Davies | | |

**3.** **Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol

Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4.** **Cadarnhau Cofnodion 03-10-22**

| | | |
|---|---|---|
| Penderfynwyd derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Eiliwyd | |
| Cyng A Edwards | Cyng H Davies | Cytunwyd |

**5.** **Ceisiadau Cynllunio**

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and- sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

4CG Cynnal y Cardi – Cynllun Grant LEADER
4CG gyda Planed yn bwriadu creu 3 ymddiriedolaeth tir cymunedol (CLT) i alluogi pobl i ddatblygu a phenderfynu ar dai cymdeithasol.

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ysgrifennu llythyr i gefnogi'r fenter ac y byddid yn croesawu rhagor o wybodaeth am y cynnydd. | Cytunwyd |

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6.** **Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Nodwyd fel y darparwyd cyn y cyfarfod. Ychwanegodd y CS A Edwards ei bod yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn helpu trefnu codi sbwriel yn y flwyddyn newydd ac yn ystyried llyfrgell gymunedol.

**7.** **Cyllid a Gweinyddu**
*7.1 Taliadau Misol*

Taliadau Tachwedd 22 Gross

| | | | |
|---|---|---|---|
| 07/11/2022 | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r ystafell Anfoneb 842 a | 40.00 |
| | Cymorth Cynllunio Cymru | Hyfforddiant cynllunio, Polisi cynllunio, Gorfodi | 105.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | S E Davies | Cyflog, hawlio treuliau CThEF | 463.85 |
| | Cyngor Cymuned Llandudoch | Rhannu hyfforddiant gyda Llan'doch | 22.50 |
| Â siec | Cyng K Symmons | Cadwyn a chlo | 13.69 |
| | Danfo | Toiledau a chysgodfan bws anf 6712 | 319.50 |
| | N Redmond | Lwfans Cadeirydd | 350.00 |
| | Parti yn y Parc | Arian grant pryd bwyd i'r henoed | 886.00 |

Talwyd mis Hydref

LAS Sbwriel 25.89

| *Cynigiwyd* | *Eiliwyd* | |
|---|---|---|
| Cyng A Edwards | Cyng H Davies | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*
I ddilyn

7.2 *Cyfarfodydd y dyfodol*
Nodwyd y llythyr i gefnogi menter y Neuadd i ddarparu cyfleusterau cyfarfodydd ar-lein. Gofynnwyd a allai cyfarfodydd fynd yn ôl i'r Hen Ysgol yn Llangoedmor. Dywedwyd nad oedd y Clerc yn sicr a oedd y Neuadd yn dal ar agor ar gyfer cyfarfodydd ac y byddai angen band eang i gydymffurfio â'r gofyniad mynediad rhithiol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

7.3 *Cyfrifon diwedd blwyddyn*
Dim ymateb wrth yr archwiliad allanol hyd yn hyn. Nid oedd 3 blynedd yn ddyledus.

7.4 *Cyllideb ac ymgynghori ar ddrafft o adroddiad y Panel Taliadau Annibynnol i Gymru*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ymateb fel a ganlyn i adroddiad drafft IRPW. Bod yr holl daliadau i Gynghorwyr yn ddewisol gyda hawl i unrhyw Gynghorydd wrthod y taliadau hynny. Y dylid gwneud cais am daliadau am nwyddau a thaliadau gorfodol yn cael eu gwneud. Bod pryder y gallai'r taliadau gorfodol gael eu trethu..<br><br>Nodwyd nad oedd y materion eraill yn yr ymgynghoriad yn wahanol iawn i'r flwyddyn flaenorol, a lle oedd angen byddid yn pleidleisio arno wrth osod y gyllideb.<br><br>Nodi ail ddrafft y gylllideb. Cymeradwyo'r gyllideb yn derfynol dim hwyrach na chyfarfod mis Rhagfyr. | Cytunwyd |

*7.5 Cofrestru tir*
Tir elusennol yn parhau.

*7.6 Adroddiad blynyddol/Rhaglen hyfforddiant/cylchlythyr*
Nodwyd bod y ddau wedi eu cyhoeddi, a chyfieithiad Cymraeg o'r rhaglen hyfforddiant i ddilyn. Ymateb pellach wedi dod i'r archwiliad sgiliau ond dim digon i ymgymryd â'r dasg.

*7.7 Diweddariad am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.8 Y Pecyn Cyllid a Llywodraethiant i Gynghorau Tref a Chymuned*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Nodi y gellir cyfeirio at agweddau ar y pecyn fel rhan o'r archwiliad allanol. Bod y Cyngor yn penodi pwyllgor a fyddai'n edrych ar Ran Dau o'r pecyn ac yn cynghori sut i symud ymlaen. | Cytunwyd |

*7.9 Prosiect Cwrteisi a Pharch - Addewid*
[https://www.nalc.gov.uk/our-work/civility-and-respect-project](https://www.nalc.gov.uk/our-work/civility-and-respect-project)

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohirio gyda chais am i'r holl Gynghorwyr edrych ar y dogfennau. | Cytunwyd |

*7.10 CCTV*

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| O gofio'r gofynion cyfreithiol yn gysylltiedig â gosod a rhedeg CCTV, ni fyddai'r Cyngor yn mynd â'r mater ymhellach ar hyd o bryd. | Cytunwyd |

*7.11 Arwydd y Diffib ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl*

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Cyngor yn cytuno i dalu am arwydd os gallai lleoliad addas gael ei nodi. | Cytunwyd |

*7.12 Dyddiadau cyfarfodydd*

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn dyddiadau'r cyfarfodydd fel y'u cyflwynwyd gan nodi y bydd y cyfarfod a'r cyfarfod blynyddol ar 8 Mai 2023 nawr y ddigwydd ddydd Mawrth 9 Mai oherwydd gŵyl banc ychwanegol. | Cytunwyd |

*7.13 Arian grant*

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Rhoi £886 i'r Parti yn y Parc ar gyfer cinio Nadolig yr henoed a bod yr arian yn dod o'r cronfeydd wrth gefn. | Cytunwyd |

*7.14 Cais y Clerc am wyliau*

| PENDERFYNWYD /GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytuno i'r dyddiadau. | Cytunwyd |

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*8.1 Mannau gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*

Nodi nad oedd ymateb o hyd oddi wrth CSC am y ddogfen briffyrdd.

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cais i Gynghorwyr Sir fynd ar ôl hyn. | Cytunwyd |

Nodi bod cais wedi cyrraedd am ystyried arhosfan bws ffurfiol yng Nghroes-y-llan. Yn ôl trefn y Cyngor, gan fod y Cyngor wedi penderfynu aros i'r cwmni bws wneud cais i CSC yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, ni fydd y mater yn cael ei drafod eto tan agenda mis Chwefror.

*8.2 Llwybrau troed / mannau agored*

Nodi bod y Clerc wedi cael y planhigion clawdd ar gyfer y prosiect Llwybrau Llesiant a'u bod yn barod i gael eu casglu. Byddant yn cael eu plannu ar hyd y ffin â'r cae lle mae gwartheg yr Ucheldir.

*8.3 Pont Llechryd/yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach.*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*8.4 Ymgynghori ar 20mya*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ei gefnogi ond bod arwydd ychwanegol yn cael ei ddarparu wrth deithio tua'r dwyrain o'r rhan 40mya i'r rhan 20mya. | Cytunwyd |

*8.5 Priffyrdd draenogod – Cyng G El Tawab*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Prynu 10 templad a'u darparu ar fenthyg. | Cytunwyd |

**9. Amwynderau**

*9.1 Bloc Toiledau*

Bod y Clerc wedi bod yn annog y Cyfreithiwr i baratoi prydles gyda Neuadd y Cwrwgl.

*9.2 Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd

*9.2.1 Archwilio'r gwaith heb ei wneud o'r archwiliad ROSPA 2022*

Mae'r Clerc yn gweithio gyda'r cwmni trwsio mannau chwarae yn Llandudoch a bydd yn gofyn a yw'r sicrwydd yn cynnwys Ceredigion.

*9.2.2 Nodi trwsio'r llwybr a'r gatiau newydd i'r man chwarae*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Nodi'r gwaith, ac yn amodol ar archwiliad terfynol trefnu talu'r anfoneb. Diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r prosiect. | Cytunwyd |

9.2.3 *Cyflwr llwybr y ffin*
Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ymweld â'r safle i edrych ar gyflwr y llwybr. Mewn mannau roedd y tir dan y llwybr yn suddo ac nid oedd lle i osod cwrbyn sylweddol.

9.2.4 *Baw Cŵn*
Nodwyd bod baw cŵn ym Maesyderi.

9.2.5 *Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
Roeddem yn dal i ddisgwyl ymateb i'r materion gosod

9.3 *Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Roedd gwybodaeth wedi ei hanfon at y pensaer. Roedd yswirwyr y Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru wedi cael gwybod am y sefyllfa bresennol. Roedd angen delio â thrwsio'r llawr eto.

9.4 *Adeilad y Mileniwm*
Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

9.5 *Mainc goffa neu fan i drigolion*
Darparwyd rhai costau ac esiamplau.

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytuno ar y geiriad ac archebu'r fainc. | Cytunwyd |

9.6 *Darparu rhandiroedd*
Yn parhau.

9.7 *Cysgodfannau bws*
Roedd yr hysbysfwrdd wedi cyrraedd

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytunodd y Cyng R Rose yn garedig i edrych ar y goosodiad. | Cytunwyd |

9.8 *Diffibrileiddwyr*

Neuadd y Cwrwgl – yn gweithio
Llangoedmor
Dyfynbris gan y trydanwr i ddod.

*9.9 Hysbysfyrddau*
Heb allu dod o hyd i ddrws newydd eto.

*9.10 Biniau newydd (postyn, lawr, lle chwarae)*

**10. Digwyddiadau**
*10.1 Sul y Cofio*
Byddai'r Cadeirydd yn gosod torch. Oherwydd materion yswiriant ni allai hwn fod yn ddigwyddiad cyhoeddus.

*10.2 Goleuadau Nadolig*
*Y trydanwr wedi cadarnhau y bydd wedi gosod y goleuadau ac y byddant yn barod erbyn eu cynnau.*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod 75 o gonau Nadolig i gael eu costio a'u prynu,  a dirprwyo hyn i'r Clerc drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd | Cytunwyd |

*10.3 Mari Lwyd*

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohiriwyd. | Cytunwyd |

*10.4 Glanhau Afon Teifi*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
*11.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Roedd y Neuadd yn brysur, ond roedd costau ynni  cynyddol yn broblem.
*11.3 Cyngr A Edwards ac R Davies –  Cyfarfod PACT*
*11.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*

Gofynnodd y Cyng J Culley am i bwyllgor rhanbarthol yr Eglwys yng Nghymru a'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gael eu hychwanegu at yr adran adroddiadau.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
Ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau ar ffiniau Seneddol

| PENDERFYNWYD/ GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohiriwyd. | Cytunwyd |

## 13. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr

Nodwyd llwyddiant y boreau coffi yn y Neuadd.

Roedd y Cyng G El Tawab yn bresennol pan ymwelodd y Dywysoges Frenhinol â'r ganolfan leol ar gyfer Marchogaeth i'r Anabl ac wedi ei chyflwyno i HRH.

## 14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 5 Rhagfyr 2022

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.50pm.*